


2018

# Amodau a Thelerau

**PARTNERIAETH AWYR-AGORED**

*Profiad • Mwynhau • Llwyddo*



*Experience • Enjoy • Achieve*

**OUTDOOR PARTNERSHIP**

Tracey Evans

Prif Swyddog

Gweithredol

## AMODAU A THELERAU CYFFREDINOL

Os ydych chi'n cytuno i bori a defnyddio ein gwefan [www.outdoorpartnership.co.uk](http://www.outdoorpartnership.co.uk) a mewngofnodi fel aelod a/neu wirfoddolwr, rydych chi'n cytuno i gydymffurfio gydag a rhwymo i'r amodau a thelerau defnydd canlynol, sydd, ynghyd â'n Polisi Preifatrwydd, yn rheoli perthynas Y Bartneriaeth Awyr Agored gyda chi o ran y wefan hon.

Os ydych chi'n anghytuno gydag unrhyw ran o'r amodau a thelerau hyn, peidiwch â defnyddio ein gwefan.

## DATGANIAD CYMRYD RHAN

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn cydnabod y cysyniad o 'Risg - Budd' mewn dysgu yn yr awyr agored ac yn annog pob partner, gwirfoddolwr a darparwr i gyfeirio at y ddogfen Saesneg 'Nothing Ventured' <https://www.englishoutdoorcouncil.org/wp-content/uploads/Nothing-Ventured.pdf> am gipolwg ar y dull hwn er mwyn mesur rheoli risg.

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn cydnabod bod cymryd rhan mewn gweithgareddau anturus yn cynnwys peth berygl o anafiadau. Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn defnyddio darparwyr sydd â thrwydded drwy'r Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur ([AALA](#)) i ddarparu gweithgareddau awyr agored a/neu sydd â meincnod allanol cenedlaethol ar gyfer darparu gweithgareddau sydd ddim yn rhan o'r drwydded. Enghreifftiau o hyn fyddai [Nod Antur AAA](#), [Bathodyn Ansawdd CLOtC](#), [Safon Aur AHOEC](#), Darparwr Cwrs Achrededig NGB ([RYA Cymru](#), [Canŵ Cymru](#), [Hyfforddiant Mynydda Cymru](#), [Seiclo Cymru](#), [Surf Lifesaving](#), [Chwaraeon Eira Cymru](#)).

Fodd bynnag, mae angen i gwsmeriaid dderbyn bod damweiniau ac anafiadau yn gallu digwydd. Bydd amodau a thelerau y darparwr gweithgareddau/hyfforddiant yn eich rhwymo.

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn darparu cymhorthdal ariannol tuag at gostau cyrsiau hyfforddiant a Gwobrau Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol i arweinwyr gwirfoddoli newydd a phresennol. Mae'n rhaid i'r gwirfoddolwyr fod yn aelodau o glybiau gweithgareddau awyr agored cymunedol yn ardal

gweithredu'r Elusen.

Ni fydd Y Bartneriaeth Awyr Agored yn gyfrifol am unrhyw anaf, colled (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i eiddo personol), difrod, oedi, costau, anghyfleustra neu unrhyw beth arall sydd wedi'i ddirodded o ganlyniad i unrhyw beth, sut bynnag fo hynny wedi'i achosi, mewn cyswllt â darparu'r gweithgaredd neu gwrs hyfforddiant.

### **CWCIS**

Mae gwefan Y Bartneriaeth Awyr Agored yn defnyddio cwicis i fonitro dewisiadau pori ond dydyn nhw ddim yn storio gwybodaeth bersonol. Am fwy o fanylion cyswllt gyda [info@outdoorpartnership.co.uk](mailto:info@outdoorpartnership.co.uk).

### **CYNNWYS**

Dydyn ni nac unrhyw drydydd barti yn darparu unrhyw warantî neu sicrwydd o ran cywirdeb, amseroldeb neu ba mor addas ydy'r wybodaeth a'r deunydd sydd ar y wefan hon at unrhyw ddiben. Rydych chi'n cydnabod y gall gwybodaeth a deunydd o'r fath gynnwys rhai camgymeriadau ac ychydig o anghywirdeb, dydyn ni ddim yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw anghywirdeb neu gamgymeriadau wedi'u caniatáu yn ôl y gyfraith.

Rydych chi'n defnyddio gwybodaeth neu ddeunydd ar y wefan hon yn gyfan gwbl ar eich liwt eich hun, ac ni fyddwn ni'n gyfrifol am hyn. Eich cyfrifoldeb eich hun fydd sicrhau bod unrhyw gynnyrch, gwasanaethau neu wybodaeth sydd ar gael trwy'r wefan hon yn cwrdd â'ch gofynion penodol.

Mae'r wefan hon yn cynnwys deunydd rydym ni'n berchen arno neu â thrwydded ar ei gyfer. Mae'r deunydd hwn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, ddyluniad, fformat, edrychiad, delwedd a graffig. Mae atgynhyrchu wedi'i wahardd heb law yn unol â rhybudd hawlfraint, sy'n rhan o'r amodau a thelerau hyn. Caiff pob nod masnach gaiff eu hatgynhyrchu ar y wefan hon, sydd ddim yn berchen ar, neu dan drwydded y gweithredwr, eu cydnabod ar y wefan hon.

Gall defnydd anawdurdodedig o'r wefan hon efallai gynyddu hawliadau am ddifrod a/neu fod yn drosedd.

O bryd i'w gilydd, efallai bydd y wefan hon hefyd yn cynnwys dolenni cyswllt at wefannau eraill. Caiff y dolenni cyswllt hyn eu darparu er hwylustod ichi er mwyn darparu gwybodaeth bellach. Dydyn nhw ddim yn golygu ein bod ni'n cefnogi'r wefan/gwefannau. Does gennym ni ddim cyfrifoldeb dros gynnwys y gwefannau cysylltiedig.

Mae eich defnydd o'r wefan hon ac unrhyw anghydfod sy'n codi o ddefnydd o'r wefan yn amodol ar gyfreithiau Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y wefan hon at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig. Caiff yr wybodaeth ei darparu gennym ni a tra ein bod ni'n ymdrechu i gadw'r wybodaeth yn ddiweddar ac yn gywir, dydyn ni ddim yn cyflwyno warantî nac unrhyw beth o unrhyw fath, boed hynny yn benodol neu yn awgrymedig, ynglŷn â dibynadwyedd, addasrwydd neu argaeledd y wefan neu'r wybodaeth, cynnyrch, gwasanaethau neu graffig cysylltiedig ar y wefan at unrhyw ddiben. Bydd unrhyw ddibyniaeth byddwch chi'n ei rhoi ar wybodaeth o'r fath ar eich liwt eich hunain yn gyfan gwbl.

Ni fyddwn ni'n gyfrifol mewn unrhyw achos am unrhyw golled neu ddifrod gan gynnwys heb gyfyngiad, colled neu ddifrod anuniongyrchol neu o ganlyniad, neu unrhyw golled neu ddifrod o gwbl sy'n codi o golli data neu elw sy'n codi o, neu mewn cyswllt â, defnydd o'r wefan hon.

Caiff pob ymdrech ei wneud er mwyn sicrhau bod y wefan yn parhau i redeg yn llyfn. Tydy'r Bartneriaeth Awyr Agored ddim yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros, nac ychwaith yn gyfrifol am, unrhyw adeg lle na fydd y wefan ar gael dros dro oherwydd problemau technegol y tu hwnt i'n rheolaeth.

### **AD-DALU A CHANSLO**

Byddwn ni'n cymryd pob gofal rhesymol er mwyn sicrhau bod yr holl fanylion, disgrifiadau a phrisiau cynnyrch sy'n ymddangos ar y wefan yn gywir pan gafodd yr wybodaeth ei rhoi i mewn i'r system.

Ar gyfer tâl aelodaeth a ffioedd cyrsiau, mae'n rhaid eu canslo ymhen 14 diwrnod ar ôl talu'r ffi.

### **SAFONAU GWASANAETH**

Dylech chi anfon unrhyw gwynion ynglŷn â gwefan Y Bartneriaeth Awyr Agored at: Y Bartneriaeth Awyr Agored, Bwthyn Carnedd, Plas y Brenin, Capel Curig, Conwy, LL24 0ET.

### **PREIFATRWYDD**

Edrychwch ar ein Hysbysiad Preifatrwydd, sydd hefyd yn rheoli eich ymweliad ar ein gwefan, er mwyn deall ein harferion.